Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol

**Yn dilyn y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiogelwch mewn Chwaraeon**

Dydd Mawrth 2 Mai 2017

Diben y cyfarfod yw rhoi cyfle i ACau ac aelodau'r Grŵp gynnal trafodaeth bellach ar ddiogelu plant ym maes chwaraeon yn dilyn y cyfarfod blaenorol.

Nodwyd a thrafodwyd ymhellach yr y llwyddwyd i'w wneud i ddiogelu plant ym maes chwaraeon, a'r heriau sy'n parhau.

Dechreuoedd **Cecile Gwilym** o'r NSPCC drwy roi trosolwg o'r sefyllfa

- Mae nifer o sefydliadau chwaraeon yn cael arian gan Chwaraeon Cymru, ac mae 30 ohonynt wedi rhoi rhywfaint o'r safonau diogelu ar waith neu maent wrthi'n gwneud hynny
  - Mae'r bylchau i'w gweld mewn chwaraeon lleol, llai nad ydynt yn cael llawer o gyllid ac sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. O ganlyniad, mae'n anoddach sicrhau bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu rhoi ar waith
  - Hefyd, mae'r ffordd y mae gwasanaethau hamdden yn cael eu darparu wedi newid wrth i awdurdodau lleol roi cyfleusterau hamdden yn nwylo contractwyr.
- Mae Safeguarding Sport yn gwybod beth y maent yn ceisio'n wneud - aelodau amrywiol iawn sy'n cynrychioli cyrff gwahanol.

**David Hopkins** - Stop Now! Cymru

- Ategodd y pwynt ynglŷ n â'r newidiadau yn natur gwasanaethau hamdden. Mae rhagor o chwaraeon yn cael eu trefnu gan wirfoddolwyr a chanolfannau hamdden yn cael eu rhedeg gan y gymuned. Hefyd mae cyfleusterau hamdden preifat yn ogystal â chyfleusterau a ariennir o'r pwrs cyhoeddus i'w cael sy'n ei gwneud yn anodd gweithredu polisïau diogelu ym mhob man.

Mae'r ffocws ar sicrhau bod diogelu yn rhan annatod o waith pawb, a'u bod hefyd yn gallu manteisio ar yr hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael

Roedd am i Aelodau'r Cynulliad dynnu sylw Gweinidogion at y canllawiau i ddangos bod angen eu haddasu

**Jayne Bryant** cwestiwn: faint o'r 52 o wahanol fathau o chwaraeon sydd wedi rhoi'r weithdrefn ar waith

- Chwaraeon llai yw'r rhai sydd ar goll / nid ydynt yn rhan o'r broses eto
- Ar hyn o bryd, dim ond un person sy'n cael ariannu gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith amddiffyn plant yn adran chwaraeon NSPCC, felly nid oes ganddynt ddigon o staff na'r gallu

o reidrwydd i ymdrin â grwpiau chwaraeon mwy anffurfiol. Mae'n anoddach sicrhau eu bod yn cadw at y safonau.

Mae problem gyda chyrff chwaraeon nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar fyrddau diogelu plant ar hyn o bryd. Mae hynny'n golygu na allant fanteisio ar yr adnoddau a'r cyngor sydd ar gael. Efallai y gallai Aelodau'r Cynulliad ysgrifennu at eu byrddau diogelu lleol i ofyn sut maent yn ymgysylltu â chyrff chwaraeon lleol?

**Cecile:** Mae athletwyr ifanc anabl a phobl ifanc hynod dalentog ac elitaidd yn agored i niwed – nodwyd bod cryn berygl i'r grwpiau hyn gael eu cam-drin yn y byd chwaraeon. *A ddylid dwyn hyn i sylw Llywodraeth Cymru?*

**Gwirfoddolwyr a chyrff chwaraeon sy'n cael eu rhedeg yn y gymuned:** nodwyd eisoes ei bod yn anodd sicrhau bod gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n ymwneud â chwaraeon yn y gymuned yn ystyried diogelwch, heb eu hatal rhag cymryd rhan gan fod llawer o gyfleusterau'n dibynnu ar wirfoddolwyr

- Mae'n bwysig sicrhau'r cydbwysedd cywir, darparu hyfforddiant ond ar y lefel briodol
- Mae'n bwysig bod yn wyliadwrus ym mhob sefyllfa
- Rhaid annog pobl i ystyried cymryd camau ataliol, fel y gallant sylwi ynghynt ar unrhyw arwyddion y gallai plant fod mewn perygl o gael eu cam-drin
- Yn fwy cyffredinol, dylid ystyried lles mewn clybiau chwaraeon, a sicrhau bod plant yn gwybod at bwy i droi os byddant yn poeni am unrhyw beth

Mae angen sicrhau hefyd fod y rhai sydd ynghlwm wrth y gwaith hwn yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau

**Cynrychiolydd Suzy Davies AC:** A oes unrhyw ardaloedd penodol yng Nghymru sy'n cael mwy o drafferth nag eraill? A oes problemau penodol yn wynebu'r ardaloedd hyn?

**David Hopkins,** Stop Now! Cymru: Gwyddom, drwy arolygiadau gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac awdurdodau lleol fod rhai ardaloedd yng Nghymru yn llawer gwell nag eraill o ran dilyn gweithdrefnau ac arferion diogelu. Gwyddom fod rhai awdurdodau wedi cael anawsterau sylweddol, ac mae gan yr awdurdodau hyn lawer i'w ddysgu. Y rheswm am hyn yn aml yw'r ffaith nad ydynt yn cael gwybod am arferion diogelu.

**Cynrychiolydd Suzy Davies AC:** Pa mor atebol yw cwmnïau preifat?

Os yw cwmni wedi'i breifateiddio'n llwyr, nid yw'n atebol i unrhyw un. Os oes unrhyw reswm i'w herio, rhaid mynd drwy'r cwmnïau preifat. Ond mae achosion lle mae awdurdodau lleol yn is-gontractio gwasanaethau cyfleusterau hamdden, ond yr ALl sy'n parhau i fod â'r

cyfrifoldeb corfforaethol cyffredinol. Unwaith eto, mae hyn yn amrywio ac mae atebolrwydd yn dibynnu ar y sefyllfa benodol.